# CBAC Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol, Uned 3F Sikhiaeth, trefnydd gwybodaeth: Thema 3C Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol: Yr her o berthyn i grŵp lleiafrifol crefyddol ac ethnig ym Mhrydain gan gyfeirio at miri a piri

## Cysyniadau allweddol

- Mae'r cysyniad hwn yr un mor hen â Sikhiaeth – wedi'i sefydlu gan Guru Hargobind. Mae'r cysyniad miri/piri yn cwmpasu gweithgareddau ysbrydol a gweithgareddau amserol. Y rhan ysbrydol yw'r berthynas â Duw Waheguru. Y rhan amserol yw'r berthynas â'r creu.
- Mae'r cysyniad miri yn dynodi pŵer byd-eang, materol a gwleidyddol. Mae'r cysyniad yn gysylltiedig â'r pŵer traddodiadol a fwynhawyd gan frenhinoedd a rheolwyr lle gallai grym y fyddin arwain at bŵer a'r gallu i reoli neu ddylanwadu ar y bobl.
- Mae'r cysyniad piri yn gysylltiedig â'r pŵer a fwynhawyd gan arweinwyr crefyddol, i gael pŵer neu ddylanwad dros y rhai sy'n ymroi drwy 'bŵer ysbrydol' neu bŵer crefyddol.
- Rhaid i Sikhiaid ystyried anghenion materol y gymuned a'r bobl a hefyd anghenion ysbrydol y bobl. Mae Langar yn agwedd bwysig ar gysyniad miri; mae'n darparu ar gyfer anghenion materol y gymuned.
- Erbyn hyn mae Sikhiaid yn cyfeirio llai at miri a piri ac yn ffafrio deg a teg yn fwy. Ystyr deg yw 'pot coginio mawr' ac mae teg yn golygu 'cleddyf neu kirpan' – gan fodloni anghenion materol y gymuned ac amddiffyn hawliau'r bobl.
- Nid yw cyfoeth ynddo'i hun yn anghywir – mae'n wobr am fywyd blaenorol (Cyfraith Karma). Nid yw Sikhiaid yn gweld tlodi yn rhan hanfodol i ddaioni. Mae hon yn farn ymarferol yn y byd sydd ohoni heddiw. Mae gan y cyfoethog ddyletswydd i helpu'r rhai llai ffodus a rhoi'r hyn a allant – dasvandh. Mae hyn yn gysylltiedig â'r syniad o sewa – gwasanaeth anhunanol i Dduw drwy helpu eraill.
- Mae Sikhiaid, drwy ddiffiniad, yn hael, yn garedig, yn amyneddgar, yn ddeallus, heb ofn ac yn oddefol o bawb. Maent yn barod i gynnig cymorth i unrhyw fod dynol arall sydd mewn angen. Maent yn amddiffyn y gwan, yn darparu i'r tlawd, ac yn ysbrydoliaeth i'r iselrai. Mae gwisgo'r kirpan yn arwyddocaol o hyn.
- *'God's bounty belongs to all, but in this world it is not shared justly.'* –Guru Granth Sahib. Gellir dadlau bod hon yn farn anrhydeddus, ond mewn byd seciwlar, amhersonol gellir dadlau hefyd ei bod yn ddelfryd anymarferol.



## Dyfyniadau allweddol

*'It is through thine intercession I obtained birth; and it is in fulfilment of thy blessing I wear two swords as emblems of spiritual and temporal authority. In the Guru's house religion and worldly enjoyment shall be combined – the caldron to supply the poor and needy and scimitar to smite oppressors.'* – (Guru Hargobind)

*'The kirpan constantly reminds the Sikhs of three things. First, of his responsibilities to confront injustice and oppression in the political field, both as an individual and as member of the Sikh society. Second, the use of force, to the extent necessary, is permitted. The third reminder is equally significant, namely, that the Sikh society should never shirk its socio-political responsibilities, nor decline into monasticism, withdrawal or asceticism.'* – (The Abstracts of Sikh Studies Editorial)

*'The earth is the cooking-pot that the person receives only once; destiny dictates access to your great store.'* – (Guru Granth Sahib, t. 1190)

*'They who dwelt on His Name, ate only after sharing their food and provisions with others, maintained the deg and wielded the teg and sacrificed their lives for the sake of dharma, remember them, Khalsa Ji and proclaim Vahiguru …'* – (Ardas)

## Geiriau allweddol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Miri | Piri | Waheguru | Materolwr | Ysbrydol |
| Langar | Deg | Teg | Kirpan | Karma |
| Sewa | Dasvandh | Amddiffynnwr | Anymarferol | Seciwlar |
| Guru Hargobind | Darparwr | Guru Granth Sahib | | |

## Materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso

### *Dadleuon/trafodaethau allweddol*

Byddai rhai'n dadlau bod miri, yn y byd sydd o heddiw, yn bwysicach na piri. Byddai eraill yn dweud mai'r ysbrydol (piri) sy'n rhoi genedigaeth i'r materol. Byddai rhai'n dadlau eu bod ill dau mor bwysig â'i gilydd.

### *Cwestiynau allweddol*

A yw agweddau Sikhiaid at amddiffyn y tlodion a'r rhai wedi'u gormesu yn berthnasol ac yn ymarferol yn y byd sydd o heddiw?
Beth yw'r berthynas rhwng yr ysbrydol a'r materol mewn bywyd crefyddol?
Pa mor bwysig yw cysyniadau miri a piri i'r gymuned Sikhaidd?